

Yn 2013 ffurfiodd y ffidleriaid Marie Schreer a John Garner Mainly Two, â'u bryd ar ehangu'r repertoire i ddwy ffidil a rhoi lle amlycach i gyfrwng a esgeulusir yn aml. Ar ôl comisiynau gweithiau newydd gan rai o'r pennaf gyfansoddwyr oedd ohoni, rhoes Mainly Two eu sioe début mewn dwy ran yn y Victoria & Albert Museum, Llundain. Buan y dilynodd perfformiadau eto, yn y ZHD Gallery, pencadlys y diweddar bensaer adnabyddus Zaha Hadid, ac yn yr Eidal ar daith pedwar oed yn Puglia. Ers hynny ymddangosodd y deuawd mewn digwyddiadau cerdd newydd a drefnwyd gan Nonclassical, Listenpony, Bastard Assignments a From the Soundhouse, a pherfformio'n fyw mewn oedfannau'n cynnwys Sage Gateshead (Neuadd 1), Handel & Hendrix, Amgueddfa Wyddoniaeth Llundain (yn fyw ar ResonanceFM), National Portrait Gallery, Royal Academy of Dramatic Art, LSO St. Luke's, a Watermill Jazz Club. Rhyddhawyd eu halbwm début dwyran *Poetry / Synergy* yn annibynnol ym mis Tachwedd 2014 a'i ail-ryddhau'n ddigidol ar Turquoise Coconut ym mis Mai 2016. Daw Mainly Two yn eu holau i'r stiwdio yn hydref 2019 i recordio sawl darn comisiwn newydd, yn eu plith gweithiau gan y pianydd jazz Kate Williams a ffidler MT John Garner.